http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_14_11_2013&t=0&l=cy

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Paul Davies
Llyr Gruffydd
Julie James
Julie Morgan
Eluned Parrott
Gwyn R Price
Antoinette Sandbach
Joyce Watson

Tystion:

Alun Davies, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru
Julia Hill, Llywodraeth Cymru

Staff y Pwyllgor:

Alun Davidson (Clerc)
Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)
Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

- 1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Russell George a William Powell. Roedd Paul Davies ac Eluned Parrott yn bresennol fel dirprwyon.
- 1.2 Dirprwyodd Gwyn Price ar ran Vaughan Gething.

2 Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) – Cyfnod 2: Trafod y gwelliannau

2.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, aeth y Pwyllgor ati i drafod a gwaredu'r gwelliannau i'r Bil yn y drefn a ganlyn:

Adrannau 1 – 10

Adran 1:

Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

Adran 2:

Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

Adran 3:

Derbyniwyd gwelliant 11 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwelliant 1 (Antoinette Sandbach)

Gan y derbyniwyd gwelliant 11, methodd gwelliant 1.

Derbyniwyd gwelliant 12 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd gwelliant 13 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd gwelliant 14 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd gwelliant 15 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd gwelliant 16 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Adran 4:

Gwelliant 17 (Alun Davies)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|--------------------------|---------------------|--------|
| Mick Antoniw | Paul Davies | |
| Julie James | Llyr Gruffydd | |
| Julie Morgan | Eluned Parrott | |
| Gwyn Price | Antoinette Sandbach | |
| Joyce Watson | | |
| 5 | 4 | 0 |
| Derbyniwyd gwelliant 17. | | |

Gwelliant 25 (William Powell)

Gan y derbyniwyd gwelliant 17, methodd gwelliant 25.

Adran 5:

Derbyniwyd gwelliant 18 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd gwelliant 19 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwelliant 7 (Llyr Gruffydd)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|-------------------------|--------------|--------|
| Paul Davies | Mick Antoniw | |
| Llyr Gruffydd | Julie James | |
| Eluned Parrott | Julie Morgan | |
| Antoinette Sandbach | Gwyn Price | |
| | Joyce Watson | |
| 4 | 5 | 0 |
| Gwrthodwyd gwelliant 7. | | |

Derbyniwyd gwelliant 20 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwelliant 2 (Antoinette Sandbach)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---------------------|--------------|--------|
| Paul Davies | Mick Antoniw | |
| Llyr Gruffydd | Julie James | |
| Eluned Parrott | Julie Morgan | |
| Antoinette Sandbach | Gwyn Price | |
| | Joyce Watson | |

| | | |
|-------------------------|---|---|
| 4 | 5 | 0 |
| Gwrthodwyd gwelliant 2. | | |

Derbyniwyd gwelliant 21 (Alun Davies) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwelliant 3 (Antoinette Sandbach)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|-------------------------|---------------|--------|
| Paul Davies | Mick Antoniow | |
| Llyr Gruffydd | Julie James | |
| Eluned Parrott | Julie Morgan | |
| Antoinette Sandbach | Gwyn Price | |
| | Joyce Watson | |
| 4 | 5 | 0 |
| Gwrthodwyd gwelliant 3. | | |

Gwelliant 22 (Alun Davies)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|--------------------------|---------------------|--------|
| Mick Antoniow | Paul Davies | |
| Julie James | Llyr Gruffydd | |
| Julie Morgan | Eluned Parrott | |
| Gwyn Price | Antoinette Sandbach | |
| Joyce Watson | | |
| 5 | 4 | 0 |
| Derbyniwyd gwelliant 22. | | |

Adran 6:

Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

Adran 7:

Gwelliant 23 (Alun Davies)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---------------|---------------------|--------|
| Mick Antoniow | Paul Davies | |
| Julie James | Llyr Gruffydd | |
| Julie Morgan | Eluned Parrott | |
| Gwyn Price | Antoinette Sandbach | |

| | | |
|--------------------------|---|---|
| Joyce Watson | | |
| 5 | 4 | 0 |
| Derbyniwyd gwelliant 23. | | |

Gwelliant 4 (Antoinette Sandbach)

Gan y derbyniwyd gwelliant 23, methodd gwelliant 4.

Gwelliant 5 (Antoinette Sandbach)

Gan y derbyniwyd gwelliant 23, methodd gwelliant 5.

Gwelliant 8 (Llyr Gruffydd)

Gan y derbyniwyd gwelliant 23, methodd gwelliant 8.

Adrannau newydd:

Gwelliant 6 (Antoinette Sandbach)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|-------------------------|--------------|--------|
| Paul Davies | Mick Antoni | |
| Llyr Gruffydd | Julie James | |
| Eluned Parrott | Julie Morgan | |
| Antoinette Sandbach | Gwyn Price | |
| | Joyce Watson | |
| 4 | 5 | 0 |
| Gwrthodwyd gwelliant 6. | | |

Gwelliant 9 (Llyr Gruffydd)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|-------------------------|--------------|--------|
| Paul Davies | Mick Antoni | |
| Llyr Gruffydd | Julie James | |
| Eluned Parrott | Julie Morgan | |
| Antoinette Sandbach | Gwyn Price | |
| | Joyce Watson | |
| 4 | 5 | 0 |
| Gwrthodwyd gwelliant 9. | | |

Ni chafodd gwelliant 10 (Llyr Gruffydd) ei gynnig.

Adran 8:

Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

Adran 9:

Gwelliant 24 (Alun Davies)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|--------------------------|----------|---------------------|
| Mick Antoniow | | Paul Davies |
| Julie James | | Llyr Gruffydd |
| Julie Morgan | | Antoinette Sandbach |
| Eluned Parrott | | |
| Gwyn Price | | |
| Joyce Watson | | |
| 6 | 0 | 3 |
| Derbyniwyd gwelliant 24. | | |

Adran 10:

Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

2.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi derbyn pob adran o'r Bil, a chan y gwaredwyd pob gwelliant, bydd Cyfnod 3 yn dechrau ar 15 Tachwedd 2013.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor maes o law i roi manylion pellach am ddarparu canllawiau.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

Cyllideb ddrafft 2014–2015 – Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr a thrafododd y weithdrefn ar gyfer cytuno ar ganlyniadau'r Pwyllgor yn electronig.

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2013

Amser: 09:35 – 11:15

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_20_11_2013&t=0&l=cy

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Mick Antoniw
Russell George
Llyr Gruffydd
Julie James
Julie Morgan
William Powell
Joyce Watson

Tystion:

Gideon Carpenter, Cyfoeth Naturiol Cymru
Ceri Davies, Cyfoeth Naturiol Cymru
Natalie Hall, Cyfoeth Naturiol Cymru

Staff y Pwyllgor:

Alun Davidson (Clerc)
Catherine Hunt (Dirprwy Clerc)
Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)
Elfyn Henderson (Ymchwilydd)
Chloe Corbyn (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Yn absenoldeb Dafydd Elis-Thomas, etholwyd William Powell yn Gadeirydd dros dro.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas ac Antoinette Sandbach.

2 Safonau Llif Ynni Dŵr – Tystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

2.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gideon Carpenter ar yr agweddau gwyddonol ar safonau llif ynni dŵr.

2.2 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3 Papurau i'w nodi

Cyllideb ddrafft 2014–2015: Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd –

Llythyr o eglurhad gan Ymddiriolaethau Natur Cymru

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Dŵr

5.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Dŵr.

Eitem 9a

Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf - LF/AD/1182/13
Eich Cyf -

Pwyllgor yr Amgylchedd a
Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Tachwedd 2013

BIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU): GWYBODAETH YCHWANEGOL

Addewais y byddwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor ar rai pwyntiau.

Mae Adran 7 y Bill bellach yn darparu bod perchennog ceffyl yn cael cyfeirio at Weinidogion Cymru lle cyfyd anghytundeb a yw'r costau a ysgwyddwyd gan yr awdurdod lleol dan sylw ac y mae'n ceisio eu hawlio oddi wrth berchennog y ceffyl yn rhai rhesymol.

Yn dilyn camau Cymal 2, mae pob un o ddarpariaethau'r Bil wedi'u hystyried yn fanwl er mwyn edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer apelio. Disgrifir hyn isod gyda chrynodeb yn y tabl yn Atodiad A.

Ychydig o le sydd gan yr awdurdod lleol o dan y Bil i ddangos unrhyw ddisgresiwn gan fod y Bil wedi pennu'r hyn y caiff ei wneud a'r hyn na chaiff ei wneud. Fodd bynnag, mae Adran 2 (Pŵer awdurdod lleol i ymfael mewn ceffyl) yn rhoi disgresiwn i'r awdurdod lleol ymfael mewn ceffylau lle bo ganddo sail resymol dros gredu bod amgylchiadau penodedig wedi digwydd. Y trothwy 'sail resymol' a ddisgrifir yn Adran 2 sy'n rhoi i'r Bil ei effeithiolrwydd. Hynny yw y cyfan sydd ei angen ar awdurdod lleol i allu ymfael mewn ceffyl yw bodloni'i hun bod sail resymol dros gredu nad oes caniatâd cyfreithiol gan y ceffyl i fod yn y lle y mae. Mae hyn yn rhoi cydbwysedd priodol rhwng yr angen i

greu ateb effeithiol i broblem pori anghyfreithlon a'r angen i amddiffyn hawliau perchennog y ceffyl.

Fel corff cyhoeddus, rhaid i'r awdurdod lleol ei hun weithredu'n gyfreithlon ym mhopeth a wna ond mae'r Bil yn Adran 2 yn darparu diogelion rhag ymafael anghyfreithlon. I bob pwrpas, ceir tri 'phrawf' y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu bodloni cyn y caiff ymafael mewn ceffyl a'i gorlannu, gan ddibynnu ar gyd-destun yr achosion unigol sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol fel achosion o bori anghyfreithlon.

Yn Adran 2(1) y ceir y pŵer ehangaf, a roddir i awdurdod lleol i ymafael mewn ceffyl sydd ar briffordd neu le cyhoeddus. Os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol i gredu bod y ceffyl yno heb ganiatâd cyfreithlon, nid oes llawer o le am anghytundeb oherwydd byddai'n annhebygol iawn y byddai person wedi gallu negodi hawliau pori ar briffordd neu le cyhoeddus heb fod yr awdurdod lleol yn gwybod am hynny. Byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnal arfarniad o'r sefyllfa er mwyn bodloni'i hun fod yna sail resymol ac i wneud hynny, byddai'n defnyddio ei wybodaeth leol ac yn cydweithio â'r Heddlu a'r gymuned leol.

O dan adran 2(2)(a), caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a'i gadw os mai'r awdurdod yw meddiannydd y tir lle y'i cafwyd e.e. cae chwarae ysgol neu barc. Nid oes potensial yn y cyswllt hwn am anghytundeb gan y byddai'r awdurdod lleol yn gwybod a yw wedi rhoi caniatâd i bori'r ceffyl neu beidio.

Adran 2(2)(b) – ar dir preifat a thir arall, ceir amodau penodol cyn y caiff awdurdod lleol ymarfer ei bŵer i ymafael a chorlannu. Yn ogystal â'r amod "sail resymol", rhaid iddo gael caniatâd perchennog y tir y mae'r ceffyl yn ei bori'n anghyfreithlon. Mae'r angen felly am ganiatâd yn cyfyngu'n fawr ar sail anghytundeb.

Bwriad y polisi o'r cychwyn yw rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r awdurdod lleol allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i achosion o bori anghyfreithlon ac mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud hynny trwy'r prawf sail resymol a ddisgrifir uchod – dyna mae awdurdodau lleol wedi gofyn i Lywodraeth Cymru amdano. Rhaid wrth gwrs wrth fesurau unioni priodol rhag ofn yr aiff pethau o'u lle ac os bydd yr awdurdod lleol yn ymafael yn anghyfreithlon mewn ceffyl, caiff y perchennog ddwyn achos o dresmasu eiddo yn erbyn yr awdurdod lleol yn y Llys Sirol. Gallai'r llys fynnu bod yr awdurdod lleol yn talu iawndal os gwelir ei fod ar fai.

Fel yr addewais pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor ar 14 Tachwedd, mae fy swyddogion wedi ystyried eto y potensial am apeliadau yn erbyn hysbysiadau ymafael a barnwyd hefyd y byddai adolygiad yn hyn o beth yn amhriodol. Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i roi hysbysiad i berchennog y ceffyl ac i gwnstabl ac i osod hysbysiad yn neu wrth y lle ymafael. Os caiff hysbysiadau o dan adran 3 eu rhoi ar gam neu ddim eu rhoi o gwbl, yna mae hynny'n tramgwyddo dyletswydd statudol adran 3. I gael iawn oddi wrth yr awdurdod lleol (am fod ceffyl wedi cael ei werthu neu ei ddifa), mae'n debygol y gwnaiff y perchennog geisio iawndal ariannol oddi wrth yr awdurdod lleol am ei golled. Y ffordd briodol o gael iawn o dan amgylchiadau o'r fath fyddai trwy Lys Sirol mewn hawliad yn erbyn yr awdurdod lleol am dramgwyddo'i ddyletswydd statudol trwy beidio â rhoi hysbysiad yn gywir neu am beidio â rhoi un o gwbl a bod y perchennog o'r herwydd yn dioddef effaith niweidiol.

Rwy'n credu y byddai'n ddiangen ac yn amhriodol ehangu cwmpas mecanwaith adolygu Gweinidogion Cymru i ddelio ag anghytundebau ynghylch ymafael mewn ceffylau a rhoi hysbysiadau. Mae rhwymedïau mwy priodol ac effeithiol ar gael eisoes yn y Llysoedd

Sirol ar gyfer perchenogion ceffylau. Bydd y llys yn gallu clywed tystiolaeth y ddau barti ac asesu unrhyw niweidiau yn unol â chanllawiau gweithdrefnol sifil ac achos cyfraith perthnasol.

Gallai ehangu bwriad gwreiddiol y polisi i ddarparu bod Gweinidogion Cymru yn adolygu materion heblaw costau sy'n destun anghytundeb gael effaith niweidiol a rhoi mwy o botensial i'r rheini sydd am rwystro ymdrechion awdurdodau lleol i ddelio â'r problemau trwy 'chwarae'r system'. Ceir risg hefyd na fydd awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau newydd a gallai awdurdodau lleol deimlo bod y ddeddfwriaeth ei hun yn broblematic oherwydd y system gymhleth o adolygiadau y gall y pwerau newydd sbarduno'u cychwyn. Hefyd, bydd yr awdurdodau lleol hynny sydd â Deddfau lleol at eu defnydd yn eu colli gan y byddai'r Bil yn diddymu'r darpariaethau yn y Deddfau lleol hyn sy'n ymwneud â phori anghyfreithlon. Mae'n werth nodi nad oes hawliau apelio yn y Deddfau lleol hyn.

Am nifer o resymau, adolygu anghytundebau ynghylch costau yw'r unig adolygiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gynnal.

- Yn gyntaf, mae'r Bil yn bendant iawn ynghylch yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn gorfod ei wneud felly nid oes fawr o le am anghytundeb ffeithiol. Fodd bynnag, mae'n briodol cynnal adolygiad annibynnol i ystyried anghydfod ffeithiol ynghylch costau gan fod gan yr awdurdodau lleol ychydig o ddisgresiwn ynghylch pennu'r costau hyn.
- Yn ail, rhagwelir y gall Gweinidogion Cymru ddelio ag anghydfodau o'r math hwn yn gyflym ac yn effeithiol heb i berchennog y ceffyl orfod troi'n ffurfiol at y llysoedd.
- Yn drydydd, bydd ei gwneud hi fel hyn yn osgoi oedi hir wrth ddisgwyl am ganlyniad achos llys a allai arwain at gostau mawr i'r awdurdod lleol wrth gadw'r ceffyl tra'n disgwyl dyfarniad y llys.

Wedi ystyried pob un o ddarpariaethau'r Bil, nid wyf yn credu bod meysydd eraill yn y Bil sydd angen eu hesbonio neu eu diwygio ymhellach.

Rwyf wedi cael ar ddeall bod swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn fodlon na fydd y ddarpariaeth hon yn arwain at feichiau uniongyrchol nac ychwanegol i'r llysoedd. Mae swyddogion y Swyddfa Gartref yn fodlon hefyd â'r gair "cwnstabl" yn Adran 3 y Bil – mae gofyn i awdurdod lleol roi hysbysiad i "gwnstabl" er mwyn hysbysu'r Heddlu bod ceffyl wedi'i ymafael ynddo a'i gorllannu. Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn rhan o dair Deddf leol yng Nghymru, sef Deddf Morgannwg Ganol, Deddf Gorllewin Morgannwg a Deddf Dinas Caerdydd.

Rwyf wedi edrych eto ar fater adnabod a'r gofyn ar awdurdodau lleol i osod microsglodyn ar bob ceffyl yr ymafaelir ynddo cyn ei roi yn ôl i'r perchennog neu ei werthu.


Bydd y canllaw fydd yn cyd-fynd â Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) yn esbonio'n glir iawn beth y dylai awdurdod lleol ei wneud o ran adnabod y ceffylau y maent yn ymafael ynddynt. Mae'n aildatgan hefyd beth yw'r gofynion cyfreithiol ar berchenogion o ran cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ar basbortau a microsglodion gan gynnwys y potensial am erlyniad troseddol.

Bydd y canllaw'n ymdrin â'r hyn y mae'n rhaid i berchennog ei wneud i adnabod ei geffyl a beth sy'n digwydd pe bai'r awdurdod lleol yn ymfael mewn ceffyl sydd heb basbort na microsglodyn. Hefyd, mae'r canllaw'n disgrifio cyfrifoldebau awdurdodau lleol am gadarnhau pwy yw perchennog y ceffyl. Caiff y Pwyllgor gopi drafft o'r canllaw cyn 4 Rhagfyr, fel y cytunwyd â Chlerc y Pwyllgor.

Yn olaf, ynghylch unioni anghytundeb ariannol, nid oes darpariaeth yn y Bil i awdurdod lleol adennill ei gostau oddi wrth y perchennog am ddifrod y gallai ei geffyl fod wedi'i achosi i dir yr awdurdod lleol boed hynny trwy bori anghyfreithlon neu wrth ymfael yn y ceffyl hwnnw. Mae awdurdodau lleol yn yr un sefyllfa â thirfeddianwyr preifat o ran adennill eu costau o dan amgylchiadau o'r fath.

Ni chaiff awdurdod lleol adennill costau heblaw'r rheini y bydd wedi'u hysgwyddo'n rhesymol wrth ymfael yn y ceffyl, ei gorlannu, ei fwydo a'i gynnal, ac os yn berthnasol, wrth ei waredu.

Mae'r gyfraith fel y mae yn rhoi dwy ffordd bosibl i dirfeddianwyr preifat o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971 sydd wedi dioddef difrod o ganlyniad i bori anghyfreithlon. Os ydy perchennog y ceffyl yn hysbys, caiff y tirfeddianwyr hawlio costau oddi wrth y perchennog hwnnw. Os nad yw'r perchennog yn hysbys, caiff y tirfeddiannwr werthu'r anifail sydd wedi crwydro ar ei dir a chael ei ddigolledu drwy'r ffordd honno. Darperir yr wybodaeth hon yn y canllaw.



Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

| Adran y Bil | Ei harwyddocâd a'r camau a gymerwyd | Adolygu |
|-------------------------------------|---|--|
| Adran 1 – Trosolwg | Mae'r adran hon yn disgrifio pwrpas a darpariaethau'r Bil. | Mae'r adran hon yn disgrifio'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud fel na all fod sail ar gyfer cynnal adolygiad. |
| Adran 2 – Pŵer i ymfael mewn ceffyl | Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i awdurdod lleol ymfael mewn ceffyl o dan amgylchiadau penodol cyn gynted ag y mae'n fodlon bod sail resymol dros gredu nad oes gan y ceffyl ganiatâd cyfreithiol i fod yno. | Mae'r Adran hon yn rhoi'r pŵer i awdurdod lleol ymyrryd ag eiddo rhywun arall o dan amgylchiadau penodedig. Mae mecanwaith yn bod pan ymfaelir mewn ceffyl yn anghyfreithlon i ddwyn achos tresmasu nwyddau yn y Llysoedd Sirol. Gellid gofyn hefyd am gynnal adolygiad barnwrol o benderfyniad yr awdurdod lleol. Nid oes lle i alw am adolygiad ynghylch a oedd yr amgylchiadau penodedig sy'n arwain at ymfael yn y ceffyl wedi digwydd. Byddai darparu ar gyfer hynny yn tanseilio hawl statudol yr awdurdod lleol ac ni fyddai'n cyflawni bwriad y polisi o alluogi awdurdodau lleol i ddelio'n gyflym ag achosion o bori anghyfreithlon. |
| Adran 3 – Hysbysiadau | Mae'r adran hon yn disgrifio'r Hysbysiadau y mae gofyn i awdurdod lleol sy'n ymfael mewn ceffyl ac yn cadw ceffyl eu rhoi. Mae'n esbonio ble i'w gosod, pwy ddylai eu gosod a beth ddylent ei ddweud. Mae 3 math o Hysbysiad. (1) gosod hysbysiad yn neu wrth y safle ymfael o fewn 24 awr (2) hysbysiad i gwnstabl neu berchennog (os yw'n hysbys) neu'r | Mae'r adran hon yn rhoi dyletswyddau statudol ar yr awdurdod lleol i ddelio â Hysbysiadau yn y modd a ddisgrifir yn y Bil. Os na fydd yr awdurdod lleol yn dilyn y gofynion yn y Bil, ystyrir ei fod yn tramgwyddo'r ddyletswydd. Os bydd rhywun yn dioddef cam oherwydd y tramgwydd hwnnw, caiff ddwyn achos yn erbyn yr awdurdod lleol |

| | | |
|---|--|--|
| | <p>sawl sy'n gweithredu ar ei ran, o fewn 24 awr ar ôl ymafael (3) hysbysiad i'r perchennog, pan ddaw'n hysbys ar ôl i'r awdurdod chwilio amdano ac o fewn 24 o ddod i wybod pwy yw.</p> | <p>yn y Llys Sirol lle gellir asesu a gorchymyn iawndal. Ni chaiff Gweinidogion Cymru adolygu achos o dramgwyddo dyletswydd statudol. Y Llysoedd yn unig gaiff wneud hynny.</p> <p>Mae dyletswydd gyfreithiol ar berchennog o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i wneud yn siŵr ei fod yn diwallu anghenion ei geffyl o ran amgylchedd, deiet, ymddygiad, cwmnïaeth ac iechyd a lles. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar geffylau yn pennu dyletswyddau a chyfrifoldebau perchnogion gan gynnwys eu dyletswydd i archwilio'r ceffyl o leiaf unwaith bob dydd. O dramgwyddo'r Ddeddf, gallai awdurdod lleol a chyrrff gorfodi eraill ddwyn achos yn eu herbyn.</p> |
| Adran 4 – costau ymafael | <p>Mae'r adran hon yn darparu bod y perchennog yn talu i'r awdurdod lleol gostau a dynnir yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gadw ac am ei fwydo a'i gynnal. Mae'n disgrifio'r wybodaeth hefyd y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei rhoi i'r perchennog o safbwynt y costau hynny a hawliau'r perchennog i ofyn i Weinidogion Cymru adolygu'r costau.</p> | <p>Mae'r Bil eisoes yn darparu proses adolygu i Weinidogion Cymru allu delio ag anghytundebau ynghylch costau a dynnir yn rhesymol. (Adran 7).</p> |
| Adran 5 – gwaredu ceffylau sydd wedi'u cadw | <p>Mae'r adran hon yn darparu bod yr awdurdod lleol yn gwaredu ceffyl trwy ei werthu, ei ailgartrefu, ei ddychwelyd neu ei ddifa pan fydd rhai amodau wedi'u bodloni.</p> | <p>Posibilrwydd cynnal adolygiad o anghytundeb ynghylch gwerth ceffyl o'i werthu.</p> <p>Bydd gan berchennog sy'n anghytuno ynghylch gwerth ceffyl yr hawl i ofyn i Weinidogion Cymru am adolygiad o dan adran 7.</p> |

| | | |
|--|---|--|
| <p>Adran 6 – Cofnod o'r ceffyl y deliwyd ag ef</p> | <p>Bydd angen i awdurdod lleol gadw cofnod o'r holl geffylau y bydd wedi ymafael ynddynt.</p> | <p>Mae hwn yn ofyn statudol ar yr awdurdod lleol. Os na fydd yn cadw cofnod, bydd yn tramgwyddo dyletswydd statudol. Os bydd person yn dioddef cam oherwydd y tramgwydd, gallai fynd at y Llys Sirol i ofyn iddo asesu a dyfarnu iawndal.</p> |
| <p>Adran 7 – Unioni anghytundebau</p> | <p>Mae'r adran hon yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n cynnal adolygiad o'r costau.</p> | <p>Dyma fecanwaith y câi perchennog ei defnyddio i gyfeirio anghytundeb ynghylch costau a dynnir yn rhesymol gan yr awdurdod lleol at Weinidogion Cymru. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â phennu costau yn rhoi peth disgresiwn i awdurdodau lleol. Mae'n briodol cyfeirio anghytundeb ynghylch costau at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt allu torri unrhyw ddadl.</p> |



Dafydd Elis-Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Tachwedd 2013

Annwyl Cadeirydd

O dan Reol Sefydlog 16, cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes yw ystyried nifer, cylch gwaith a theitlau pwyllgorau'r Cynulliad, a chadw llygad ar y sefyllfa yn ystod cyfnod Cynulliad.

Yn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd, bu'r Rheolwyr Busnes yn ystyried cyfrifoldebau'r pwyllgorau. Cynhaliwyd y drafodaeth yn rhannol oherwydd pryderon ynghylch y berthynas rhwng cylch gwaith y pwyllgorau a phortffolios y Gweinidogion, a ddaeth i'r amlwg wrth graffu ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth.

Mae cylch gwaith ein pwyllgorau¹, a gytunwyd ar ddechrau'r Cynulliad hwn, wedi'u llunio i sicrhau fod modd i un pwyllgor Cynulliad, o leiaf, graffu ar waith holl feysydd cyfrifoldeb y Gweinidogion. Drwy roi cyfle i'r holl bwyllgorau archwilio unrhyw fater o'u safbwynt penodol hwy, mae modd hefyd archwilio'n drawsbynciol holl feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth. Mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn fod y modd y lluniwyd y system bwyllgorau, yn ei hanfod, yn gadarn, ac nid ydym yn bwriadu newid y system yn sylweddol. Nid ydym ychwaith yn bwriadu newid y gofyniad i'n pwyllgorau polisi fod yn gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth ac ar bolisi fel ei gilydd.

¹ Gweler yr adroddiad atodedig a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes ar 12 Gorffennaf 2011.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifaf@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230



Llywydd
Presiding Officer



Serch hynny, rydym yn credu ei bod yn bryd gofyn i'r pwyllgorau a oes angen addasu ychydig yn rhagor ar eu cylch gwaith. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymgynghori â'ch pwyllgor a rhoi gwybod i mi am unrhyw newidiadau i'r cylch gwaith a fyddai, yn eich barn chi, o fantais i wella'r modd y mae'r strwythur cyfredol yn gweithio.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 29 Tachwedd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Rosemary Butler".

Rosemary Butler AC
Llywydd

Annex A

National Assembly for Wales

Business Committee

12 July 2011

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Committee Portfolios and Responsibilities in the 4th Assembly

Introduction

On 22 June, the Assembly approved motions to establish its committee system.

The Standing Orders require all areas of government responsibility to be open to scrutiny by the Assembly's committee system. Hence, no areas of ministerial responsibility should be out of bounds for examination by at least one Assembly committee. At the same time, the Business Committee intends the system to allow for cross-cutting examination of all areas of government responsibility. So, whilst this report indicates the lead committee for each broad area of ministerial responsibility, all committees are free to examine any issue from their particular perspective.

The core roles of the Assembly's committee system can be summarised as follows:

- scrutinising Bills and other Assembly, UK and EU legislative proposals, reporting to the Assembly with recommendations for their improvement, and considering and making amendments to Bills;
- examining the finance and performance of relevant parts of the Welsh Government, associated public bodies and others of relevance to Wales; and
- examining and reporting on the implementation of Welsh Government policy, legislation and other commitments, including identifying and scrutinising areas of existing or emerging Welsh Government policy, or areas where existing policy is deficient, and making proposals for improvements.

This report sets out in more detail the remits of the various committees.

Children and Young People Committee

The Children and Young People Committee's role is to consider expenditure, administration, policy and legislative matters within its remit. The main areas of ministerial responsibility falling within the committee's remit are listed below.

The rights and entitlements of children and young people

Child Poverty

Social care for children

Child health

Adoption and fostering services

Play

Parenting and Families

Childcare

Children's Commissioner for Wales;

The Children and Family Court Advisory Support Service (CAFCASS)

Safeguarding children

Schools, including teaching standards, curriculum, governance and effectiveness

Welsh medium and bilingual education

Additional learning needs

Inclusion in schools

Pupil attendance and behaviour

Early years education

14-19 learning

Youth work

Relevant EU policy matters

Environment and Sustainability Committee

The Environment and Sustainability Committee's role is to consider expenditure, administration, policy and legislative matters within its remit.

The main areas of ministerial responsibility falling within the committee's remit are listed below.

Agriculture, Fisheries and Food

Water resources, control and quality (including the marine environment)

Wildlife, biodiversity and nature conservation

National Parks

Countryside and open spaces

Forestry

Waste management

Energy policy and fuel poverty (including steel and coal)

Animal health and welfare

Planning and Building Regulations

Climate change

Sustainable Development

Common Agricultural Policy

Relevant EU policy matters

Health and Social Care Committee

The Health and Social Care Committee's role is to consider expenditure, administration, policy and legislative matters within its remit. The main areas of ministerial responsibility falling within the committee's remit are listed below.

National Health Service

Social care

Mental health services

Public health and health protection

Health improvement

Carers

Social services activities of local authorities

Regulation of residential, domiciliary, adult placements

Aids, adaptations and support at home

Independent living

Care in the community

The Older People's Commissioner for Wales

Food safety

Research and development in health and social care

Prison Service health service

Relevant EU policy matters

Communities, Equality and Local Government Committee

The Communities, Equality and Local Government Committee's role is to consider expenditure, administration, policy and legislative matters within its remit. The main areas of ministerial responsibility falling within the committee's remit are listed below.

Housing and housing-related activities

Homelessness and housing advice

Affordable housing (including quality)

Local Government and Communities

Public Service Ombudsman Wales

Public service improvement

Equal opportunities

Domestic violence

Asylum, immigration and migrant workers

Community cohesion

Community Safety

Gypsies and travellers

Culture

Welsh language

Welsh heritage and the historic environment and buildings

Museums, public libraries and archives

Arts

Tourism

Sport, physical activity and active recreation

Fire and Rescue Services

Civil Contingencies

Broadcasting

Relevant EU policy matters

Enterprise and Business Committee

The Enterprise and Business Committee's role is to consider expenditure, administration, policy and legislative matters within its remit. The main areas of ministerial responsibility falling within the committee's remit are listed below.

Business and enterprise, including inward investment / exports

Research, development and innovation

Higher education

Technology and Science

Strategic, physical and legacy regeneration

Employment

Workforce development

Skills

Vocational qualifications

NEETS

Adult community learning and work based learning

Employability and careers advice

Welfare reform

ICT Infrastructure

Transport

Social Enterprise

EU structural funds programmes

Relevant EU policy matters

Finance Committeeⁱ

The Finance Committee's role is to carry out the functions of the responsible committee set out in Standing Order 19. This includes consideration of the use of resources by the Assembly Commission or Welsh Ministers and in particular reporting during the annual budget round. The Committee may also consider any other matter relating to expenditure out of the Welsh Consolidated Fund.

In respect of the examination of the financial implications of Bills the Business Committee considers that the Committee should be selective, focusing its scrutiny on Bills of greatest financial significance, and take a strategic overview of financial matters relating to legislation.

Public Accounts Committeeⁱⁱ

The Public Accounts Committee's role is to carry out the functions of the responsible committee set out in Standing Order 18. The Committee will consider reports prepared by the Auditor General for Wales on the accounts of the Welsh Government and other public bodies, and on the economy, efficiency and effectiveness with which resources were employed in the discharge of public functions. Its remit also includes specific statutory powers under the Government of Wales Act 2006 relating to the appointment of the Auditor General, his or her budget and the auditors of that office.

Constitutional and Legislative Affairs Committee

The Constitutional and Legislative Affairs Committee's role is to carry out the specific functions of the responsible committee in Standing Order 21 and to consider any other constitutional or governmental matter within or relating to the competence of the Assembly or Welsh Ministers. This includes the consideration of statutory instruments, draft statutory instruments, any other subordinate legislation laid before the Assembly, Assembly and UK Bills as well as a wider remit to consider the subsidiarity implications of draft European Union legislation and other constitutional matters. In particular

they also have an overview of the First Minister's functions as they relate to constitutional or overarching governmental matters.

Petitions Committee

The Petitions Committee's role is to consider all admissible petitions which are submitted by the public. Its specific functions are set out in Standing Order 23

Standards Committee

The Standards committee's role is to carry out the functions set out in Standing Order 22. These include the investigation of complaints referred to it by the Standards Commissioner, consideration of any matters of principle relating to the conduct of Members, establishing the procedures for the investigation of complaints and the arrangements for the Register of Members' interests and other relevant public records determined by Standing Orders.

European and External Affairs

The Business Committee agreed to mainstream European policy matters across committees rather than have a single, dedicated committee. The Constitutional and Legislative Affairs Committee will be responsible for subsidiarity monitoring checks as well as considering any other constitutional or governmental matter within or relating to the competence of the Assembly or Welsh Ministers.

Reviewⁱⁱⁱ

The Business Committee has agreed that it will review the operation of the committee system in 2012. As part of that review, it will consider the impact of the decision to mainstream European matters.

The role of committee chairs

Committee chairs play a vital role in the delivery of the strategic objectives of the Assembly. Given this, and the fact that each Chair is elected by the Assembly as whole, we feel it is appropriate to set out in more detail the role that committee chairs must fulfil on behalf of the Assembly.

The key responsibilities of committee chairs are to:

- set the strategic direction of the committee and ensure the transparent prioritisation of its activity so as to deliver a balanced, comprehensive and effective programme of legislative, policy and financial scrutiny;

- maximise the relevance and influence of the committee whilst maintaining its clear independence from the Welsh Government;
- act impartially at all times, decisively, fairly and in a manner that maintains the confidence of the committee;
- command the confidence of Members, witnesses and the public at large through knowledge of the subject matter of the committee's remit; demonstration of effective legislative, policy and financial scrutiny techniques; maintenance of order; and the application of all relevant legal and procedural requirements on the committee;
- secure the commitment and engagement of all committee members and build cross-party consensus wherever possible;
- build the culture and skills mix within the committee required to maximise its effectiveness as a scrutiny body;
- ensure that the committee receives the expert advice, information and other support it requires to fulfil its objectives effectively;
- drive the delivery of all aspects of the committee's work with pace and quality;
- represent the committee publicly, in the media and in formal Assembly business; and
- ensure critical analysis and evaluation of the committee's work and drive innovation in its operation so as to increase effectiveness, public engagement and impact.

ⁱ The remit of the Finance Committee was amended on 15 October 2013 so that it is now responsible for the functions set out in Standing Orders 18.10 and 18.11 in relation to oversight of the Wales Audit Office and Auditor General for Wales.

ⁱⁱ The remit of the Public Accounts Committee was amended on 15 October 2013 so that it is no longer responsible for any functions relating to the oversight of the Wales Audit Office and Auditor General for Wales.

ⁱⁱⁱ A Committee for the Scrutiny of the First Minister was established in March 2012 "To scrutinise the First Minister on any matter relevant to the exercise of the functions of the Welsh Ministers and the Counsel General."